

**Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion**

**Gweithiwr Cymdeithasol - Tîm Anableddau Corfforol**

**Parhaol, 37 awr yr wythnos**

**Gwaith Cymdeithasol Lefel 3**

**Cyflog SCP 28 i 31 - £37,938.00- £40,476**

**Neu**

**Gwaith Cymdeithasol Lefel 2 (Newydd Gymhwyso)**

**Cyflog SCP 24 i 27 - £34,314 - £37,035**

**Lleoliad - Hyblyg, gyda gofod swyddfa yn Nhŷ Dewi Sant, Ewlo**

## Ydych chi'n angerddol am gefnogi pobl?

Mae cyfle cyffrous ar gael i chi ymuno â'r Tîm Gwaith Cymdeithasol Anableddau Corfforol. Rydym yn dîm arbennig sy'n cefnogi oedolion gydag anableddau corfforol a synhwyraidd, yn ogystal ag anafiadau ymennydd. Ein cenhadaeth yw gwella ansawdd bywyd trwy ddarparu gofal wedi'i bersonoli a datrysiadau arloesol i fodloni canlyniadau cymwys ein cleientiaid.

Rydym yn chwilio am Weithiwr Cymdeithasol a fydd yn chwarae rôl hanfodol yn asesu, cynllunio a chydlynu gwasanaethau. Bydd cryfderau'r ymgeisydd llwyddiannus yn cynnwys cynnal asesiadau yn seiliedig ar gryfderau, meithrin dulliau yn canolbwyntio ar ganlyniadau, a chydweithio ar ddatrysiadau creadigol.

Fel Gweithiwr Cymdeithasol bydd angen i chi fod â dealltwriaeth drylwyr o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, gwaith aml-ddisgyblaethol, Gofal Iechyd Parhaus y GIG (CHC) a'r gallu i reoli llwyth achos cymhleth. Mae sgiliau cyfathrebu effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn allweddol i'r swydd hon yn ogystal â'r gallu i greu a chynnal perthynas waith dda gyda'r holl bartïon.

Mae ein tîm yn croesawu gweithio'n hyblyg, gan alluogi gweithwyr i weithio o gartref gan annog presenoldeb yn y swyddfa un diwrnod yr wythnos.

Mae gallu siarad Cymraeg yn ddymunol.

Gan y bydd y swydd hon yn golygu llawer o gyswllt ag oedolion mewn risg / oedolion diamddiffyn, bydd rhaid i chi gael eich gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru os nad ydynt eisoes wedi cofrestru.

Er bod y swydd angen Gweithiwr Cymdeithasol Lefel 3, rhoddir ystyriaeth i ymgeiswyr Lefel 2 sydd â'r gallu i ddatblygu i Lefel 3 trwy'r fframwaith CPEL.

I gael sgwrs anffurfiol, cysylltwch â:

Claire Mayers, Rheolwr Tîm (claire.mayers@flintshire.gov.uk) neu

Mike Farrelly, Dirprwy Reolwr Tîm, (mike.j.farrelly@flintshire.gov.uk)

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn sgil pwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer y gweithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn hefyd yn cefnogi unrhyw aelodau newydd o staff neu staff cyfredol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella / datblygu eu sgiliau Cymraeg.